Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service



# Adroddiad Blynyddol Amgylcheddol a Chynaliadwyedd

2022 / 2023

www.tancgc.gov.uk

# Cynnwys


Rhagair – y Prif Swyddog Tân 1

## Adran 1

Ein Hymrwymiadau Amgylcheddol 2
Targedau Sero Net Llywodraeth Cymru 3
Safon System Rheolaeth Amgylcheddol 2016 y Ddraig Werdd 4
Adolygiad Rheolaeth Amgylcheddol 4
Cynaliadwyedd Amgylcheddol yn y Gwasanaeth 5

## Adran 2

Perfformiad Amgylcheddol – Ystadegau a Phrosiectau 6
Mesur a Monitro: Data Amgylcheddol 17
Hyfforddiant Amgylcheddol a Rhwymedigaethau Cydymffurfio 17

## Adran 3

Amcanion a Thargedau Amgylcheddol ar gyfer 2022/23 18
Amcanion Amgylcheddol – 2023/24 19

# Datganiad y Prif Swyddog Tân



## Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gweithio'n galed i ddarparu Gwasanaeth effeithlon ac effeithiol i'n cymuned leol.

Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i ddarparu Gwasanaeth rhagorol ac yn ymdrechu i wella'n barhaus y ffordd yr ydym yn gweithredu wrth leihau ein heffaith ar yr amgylchedd. Mae'r Gwasanaeth yn gweithio'n galed i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â newid yn yr hinsawdd, disbyddu adnoddau a llygredd. Rydym yn cydnabod bod ein gweithrediadau yn cael effaith ar yr amgylchedd byd-eang a lleol ac rydym wedi ymrwymo i leihau cymaint â phosibl ar ein heffeithiau amgylcheddol andwyol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi sicrhau bod ein targed sero net yn cyd-fynd â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer sefydliadau sector cyhoeddus. Gan gydnabod y terfyn amser tyn hwn, rydym yn datblygu map llwybr datgarboneiddio i weithio tuag at y targed hwn yn ein fflyd, ein hystad a'n gweithrediadau. Rydym yn ymdrechu i gyflawni ein hamcanion corfforaethol amgylcheddol trwy leihau'r galw am ynni, gweithio tuag at ddim gwastraff yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi a lleihau ein hôl troed carbon ar draws y Gwasanaeth o flwyddyn i flwyddyn.

Yr un yw ein gweledigaeth o hyd, sef bod yn Wasanaeth Tân ac Achub lle mae defnydd cynaliadwy o adnoddau, yn ogystal â materion amgylcheddol cysylltiedig, yn rhan annatod o'n holl brosesau gwneud penderfyniadau ac yn gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ein cymunedau.

Rydym wedi gwneud cynnydd mawr ym maes cerbydau allyriadau isel iawn ac ehangu'r seilwaith trydan, gan weithio tuag at annog a gwella bioamrywiaeth ar ein safleoedd, codi ymwybyddiaeth o allyriadau amgylcheddol a charbon ymhlith ein staff a datgarboneiddio ein Hystadau.

Credaf ein bod yn un o Wasanaethau Tân ac Achub blaenllaw Cymru ym maes materion amgylcheddol, a hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'r holl weithwyr a rhanddeiliaid am eu cefnogaeth barhaus a'u cyfraniadau gwerthfawr i gyflawni ein nodau cynaliadwyedd.

Roger Thomas
Prif Swyddog Tân

SAFON AMGYLCHEDDOL Y DDRAIG WERDD
GREEN DRAGON ENVIRONMENTAL STANDARD

# Adran 1 -
# Ein Hymrwymiadau amgylcheddol

Mae'r Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol hwn yn amlinellu perfformiad a chyflawniadau Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru tuag at wireddu ein hamcanion amgylcheddol ym mlwyddyn ariannol 2022/23. Mae'n ystyried targedau Llywodraeth Cymru a thargedau Cenedlaethol yn ogystal â rhwymedigaethau statudol a osodir ar sefydliadau'r Sector Cyhoeddus yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Mae'r Adroddiad yn amlinellu meysydd perfformiad allweddol y Gwasanaeth mewn meysydd lle gallwn gael yr effaith fwyaf ar yr amgylchedd, megis y defnydd o ynni, allyriadau carbon, y fflyd, cynhyrchu gwastraff a'r gadwyn gyflenwi.

Fel y Gwasanaeth Tân mwyaf yng Nghymru o ran ardal, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gyfrifol am 58 o orsafoedd tân mewn ardal sy'n cwmpasu 4,500 o filltiroedd sgwâr o dirwedd wledig yn bennaf, sef tri chwarter Cymru. Mae'r mathau o ddigwyddiadau yr ydym yn ymateb iddynt a'u nifer y tu hwnt i'n rheolaeth; yr hyn y gallwn ei reoli yw sut i fynd i'r afael â digwyddiad i gael yr effaith andwyol leiaf ar yr amgylchedd lle bo hynny'n rhesymol ymarferol. Rydym yn ceisio sicrhau bod ein gweithrediadau a'n gweithgareddau yn lleihau'r effaith y mae tanau yn ei chael ar yr amgylchedd trwy hyfforddiant, gan gydweithio â sefydliadau fel Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a thrwy ymgysylltu â'r gymuned.

## Ymrwymiadau Corfforaethol a Chynaliadwyedd Amgylcheddol yn y Gwasanaeth

Mae cynaliadwyedd amgylcheddol yn ymwneud â gwella ansawdd bywyd a'r amgylchedd mewn ffordd nad yw'n achosi difrod anadferadwy nac yn atal cenedlaethau'r dyfodol rhag gallu elwa o'r pethau da rydym wedi dod yn gyfarwydd â nhw.

Mae'r amgylchedd wedi bod yn un o Ymrwymiadau Corfforaethol y Gwasanaeth dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'n parhau i gael ei ystyried yn faes pwysig y mae angen gweithio tuag at ei wella, ym mhob agwedd ar weithgareddau'r Gwasanaeth.

Yn unol â'r trafodaethau yn COP26, mae angen parhau i leihau'r allyriadau sy'n deillio o fflyd a gweithgareddau'r gwasanaeth tân. Mae angen ystyried addasu a lliniaru mewn perthynas â Newid Hinsawdd ym mhob un o weithgareddau a chynlluniau'r Gwasanaeth. Rydym yn ymwybodol bod ein gweithrediadau yn dylanwadu ar yr amgylchedd byd-eang a lleol ac rydym wedi ymrwymo i leihau'r effeithiau andwyol yn sgil ein gweithgareddau.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Gwasanaeth wedi sicrhau bod ei weithgarwch yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n gosod cyfrifoldeb cyfreithiol ar sefydliadau statudol i fynd ati i ystyried effaith eu gweithgareddau, ynghyd â'r modd y gallai'r gweithgareddau hynny effeithio ar drigolion y blaned yn y dyfodol.

Mae'r Gwasanaeth yn adrodd yn flynyddol ar ein nodau a'n hymrwymiadau Strategol o fewn yr Asesiad Blynyddol o Amcanion Gwella a Llesiant y Gwasanaeth.  Mae'r Adroddiad hwn yn nodi'r modd yr ydym wedi cyfrannu at y nodau Llesiant ar gyfer y flwyddyn flaenorol, fel y'u nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac Adroddiad Dyletswydd Adran 6

O dan Ddyletswydd Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau.

Fel un o ofynion y Ddyletswydd, cyhoeddodd y Gwasanaeth ein Hadroddiad Dyletswydd Adran 6 cyntaf yn 2020 i gyd-fynd â'n hadroddiadau ar y flwyddyn ariannol. Amlinellodd yr Adroddiad yr hyn y gallwn ni fel Gwasanaeth ei wneud i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth ar ein tir a thrwy ein gweithgareddau. Yng ngwanwyn 2023, cyhoeddwyd yr Adroddiad Monitro i dynnu sylw at ein cyflawniadau tuag at yr amcanion o fewn y Cynllun Gweithredu yn ogystal ag amcanion Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru.

Cyhoeddwyd ail adroddiad 3 blynedd y Gwasanaeth, Cynllun Gweithredu Adfer Natur 2023 -2026, ochr yn ochr â'r adroddiad monitro yng Ngwanwyn 2023. Er mwyn helpu'r Gwasanaeth i weithio tuag at yr amcanion yn yr Adroddiad Adran 6, bydd Gweithgor Bioamrywiaeth yn cael ei sefydlu i adrodd ar y gwaith tuag at yr amcanion.

## Targedau Sero Net Llywodraeth Cymru

Yn 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar gyfer sicrhau allyriadau carbon niwtral yn Sefydliadau Sector Cyhoeddus Cymru erbyn 2030. Roedd y rhain yn cwmpasu dull manwl o adrodd am Allyriadau Carbon Sero Net a fyddai'n cael ei gwblhau gan holl Sefydliadau Sector Cyhoeddus Cymru, a hynny er mwyn darparu llinell sylfaen i gyfeirio ati wrth symud ymlaen.  Bydd y templed hwn ar gyfer adrodd yn cael ei ddefnyddio'n flynyddol i fonitro allyriadau, a byddwn yn gallu sicrhau bod y data a gasglwn yn addas ar gyfer Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol y Gwasanaeth.

Mae'r term carbon sero net yn golygu sicrhau cydbwysedd rhwng y carbon sy'n cael ei ollwng i'r atmosffer a'r carbon sy'n cael ei dynnu ohono. Defnyddir Sero Net yn gyfnewidiol â'r term Carbon Niwtral.

Ym mis Mawrth 2021, pennodd Llywodraeth Cymru dargedau newydd ar gyfer gostyngiad o 63% mewn allyriadau carbon erbyn 2030, gostyngiad o 89% erbyn 2040, a gostyngiad o 100% erbyn 2050. Hefyd, nododd Llywodraeth Cymru uchelgais gyfunol fwy heriol i'r sefydliadau sector cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni carbon sero net erbyn 2030 (uchelgais gyfunol 2030).

Fel corff Sector Cyhoeddus, mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol inni adrodd yn flynyddol ar ein hallyriadau sero net. Mae'r rhain yn cynnwys allyriadau sy'n deillio o adeiladu, gwastraff, y fflyd a'r gadwyn gyflenwi.

Yn genedlaethol, rydym eisoes yn gweld cynnydd. Ym mis Rhagfyr 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Datganiad o Gynnydd (2016 -2020) a oedd yn manylu ar y cynnydd tuag at leihau allyriadau ar y daith i sero net dros Gyllideb Garbon (CG) 1. Roedd yn amlygu bod allyriadau nwyon tŷ gwydr wedi lleihau dros y cyfnod hwn, a bod Cymru wedi sicrhau gostyngiad o 18% mewn allyriadau.



## Safon Rheolaeth Amgylcheddol 2016 y Ddraig Werdd

Er mwyn ein helpu i gyflawni ein hamcanion amgylcheddol, mae'r Gwasanaeth yn gweithio tuag at Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd (2016). Mae'r Safon yn cynorthwyo ac yn ategu ein penderfyniadau ac yn sicrhau gwelliannau amgylcheddol parhaus o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r Safon yn sicrhau ein bod yn ymgorffori ac yn ystyried partïon â diddordeb yng nghyd-destun y sefydliad o ran pwysau mewnol, allanol a chymdeithasol.

Mae Safon Rheolaeth Amgylcheddol y Ddraig Werdd yn rhwymedigaeth wirfoddol sy'n dyfarnu achrediad i Sefydliadau sy'n cymryd camau gweithredu i ddeall, monitro a rheoli eu heffeithiau ar yr amgylchedd. Ym mis Chwefror 2023, llwyddodd y Gwasanaeth i gynnal ei achrediad Lefel 5 mewn archwiliad allanol deuddydd o hyd a oedd yn adolygu cydymffurfiaeth â deddfwriaethau, gweithdrefnau a dogfennau amgylcheddol yn ogystal ag archwiliadau safle.

Mae'r achrediad llwyddiannus yn dangos ein bod wedi ymrwymo i reoli'r effaith y mae ein gweithgareddau yn ei chael ar yr amgylchedd ac mae'n dangos ein bod yn ymwybodol o'r effaith hon ac wrthi'n gweithio i'w lleihau. Rydym yn deall ein cyfrifoldebau amgylcheddol ac yn gweithio'n unol â nhw, ac rydym wedi ymrwymo i wella ein hôl troed amgylcheddol yn barhaus.

Mae'n rhoi sicrwydd sydd wedi'i ddilysu'n allanol i'n rhanddeiliaid a'n partïon â diddordeb bod ein harferion, ein prosesau a'n gweithdrefnau amgylcheddol yn effeithiol ac yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol.

Mae rhagor o wybodaeth am achrediad y Ddraig Werdd ar gael ar eu gwefan

## Adolygiad Rheolaeth Amgylcheddol

Cynhelir adolygiad o'n System Rheolaeth Amgylcheddol (EMS) yn flynyddol er mwyn sicrhau ei bod yn parhau i fod yn addas, yn ddigonol ac yn effeithiol.

Yn ystod yr adolygiad, trafodir perfformiad mewn perthynas â'r nodau a'r targedau, ynghyd ag unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â'r System Rheolaeth Amgylcheddol. Trafodir hefyd y materion canlynol:

- Camau gweithredu y mae angen rhoi sylw iddynt oddi ar y cyfarfodydd blaenorol
- Adolygiad o berfformiad
- Adroddiadau diffyg cydymffurfio ac adroddiadau ar ganlyniadau Archwiliadau
- Adolygiad o'r cyflawniadau yn unol â'r amcanion a'r targedau cyfredol
- Gosod amcanion a thargedau
- Adolygiad o'r Polisi, y gweithdrefnau a'r canllawiau Amgylcheddol
- Adolygiad o'r anghenion o ran hyfforddiant amgylcheddol
- Adolygiad o effeithiolrwydd y prosiectau amgylcheddol yr ymgymerodd y Gwasanaeth â nhw

Mae'r adolygiad o'r broses reoli yn mynd i'r afael â'r angen posibl i newid y dogfennau amgylcheddol, ac yn sicrhau bod yna ymrwymiad parhaus a chynnydd o ran gwelliant amgylcheddol.

## Yr hierarchaeth gwastraff a chaffael cynaliadwy

Mae'n bwysig i'r Gwasanaeth ein bod yn afon cyn lleied o wastraff â phosibl i safleoedd tirlenwi a'n bod yn ailddefnyddio ac yn ailgylchu dodrefn a deunyddiau lle bo hynny'n bosibl. Mae'r Gwasanaeth yn defnyddio D&G Office Interiors i gasglu ein hen ddodrefn, ac maent yn eu hatgyweirio neu'n eu huwchgylchu os oes angen ac yn eu hailddosbarthu i ysgolion a chanolfannau cymunedol. Os na ellir ailddefnyddio'r dodrefn, caiff yr holl rannau eu hailgylchu. Bydd unrhyw brosiect yr ymgymerir ag ef o fewn y Gwasanaeth yn adfer deunyddiau a'u defnyddio at ddiben arall fel mater o drefn.

Mae gan y Gwasanaeth rwymedigaeth gyfreithiol i ystyried yr hierarchaeth gwastraff wrth drin gwastraff. Mae'r hierarchaeth yn nodi, yn ôl trefn blaenoriaeth, yr opsiynau i'w hystyried o ran rheoli gwastraff. Mae'n rhestru'r opsiynau o ran rheoli gwastraff yn ôl yr hyn sydd orau ar gyfer yr amgylchedd ac mae'n rhoi pwyslais ar atal gwastraff cyn ailddefnyddio ac ailgylchu. Dim ond ar ôl ystyried yr opsiynau hyn y dylai gwastraff gael ei waredu mewn safleoedd tirlenwi.

Mae'n bwysig i'r Gwasanaeth sicrhau bod goblygiadau oes gyfan pob eitem a brynir yn cael eu hystyried (o'r crud i'r bedd). Mae ystyriaethau caffael cynaliadwy ac ystyriaethau amgylcheddol yn cael eu cadw mewn cof wrth nodi a phrynu'r holl nwyddau a gwasanaethau. Mae allyriadau Cwmpas 3 yn cael eu nodi, yn rhannol, yn yr Adroddiad hwn yn ogystal ag o fewn y gofynion adrodd sero net blynyddol i Lywodraeth Cymru.

## Agweddau ac Effeithiau

Mae gan y Gwasanaeth nifer o agweddau ac effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'n gweithrediadau bob dydd. Er mwyn monitro'r rhain, datblygwyd cofrestr yn dilyn ystyriaethau o weithgareddau a gweithrediadau'r Gwasanaeth, gyda'r effeithiau mwyaf arwyddocaol yn cael eu hamlygu ac yn cael sylw.

## Agweddau amgylcheddol yw'r elfennau o weithgareddau'r Gwasanaeth Tân ac Achub a allai effeithio ar yr amgylchedd.

Mae'r agweddau risg uchel yn cynnwys:

- Llygredd dŵr a draenio safleoedd
- Y defnydd o ynni a chynhyrchu CO2
- Cerbydau fflyd a theithio ar gyfer busnes
- Llygredd posibl wrth Ddiffodd Tanau.

Mae'r meini prawf ar gyfer yr agweddau a'r effeithiau amgylcheddol arwyddocaol yn cael eu pennu gan y pethau canlynol:

- Asesu graddfa'r agwedd a'r effaith.
- Pennu a yw'r agweddau'n cael eu rheoli gan unrhyw ddeddfwriaeth.
- Pennu a yw'r agwedd yn fygythiad i enw da corfforaethol, a
- Phennu a yw'r agwedd yn effeithio ar allyriadau carbon y sefydliad.

Adolygir y Gofrestr yn flynyddol i sicrhau bod pob un yn dal i fod yn berthnasol ac i gynnwys unrhyw agweddau ac effeithiau arwyddocaol newydd os oes angen. Mae'r ddogfen hefyd wedi'i chynnwys yng nghylch gwaith gwiriad allanol blynyddol y Ddraig Werdd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

# Adran 2 -
# Ein Perfformiad Amgylcheddol

## Perfformiad Amgylcheddol – Ystadegau a Phrosiectau

Fel Gwasanaeth, ein nod yw gwella ein perfformiad amgylcheddol a'n heffaith yn barhaus o flwyddyn i flwyddyn yn unol â'n hymrwymiad i amcanion y System Rheolaeth Amgylcheddol ac amcanion y Gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys lleihau allyriadau o fflyd ac ystad y Gwasanaeth, cynyddu'r defnydd o ynni adnewyddadwy, lleihau gwastraff ac, yn ei dro, y swmp sy'n mynd i safleoedd tirlenwi, lleihau'r defnydd o gynhyrchion plastig untro, a gwella a chyfoethogi bioamrywiaeth lle bo hynny'n bosibl.

Mae'r Gwasanaeth wedi sefydlu ethos gwaith hybrid ac mae'n defnyddio meddalwedd fideo-gynadledda i leihau teithio diangen i gyfarfodydd a lleihau'r allyriadau sy'n deillio o gymudo. Mae monitro dogfennau a gweithgareddau yn rheolaidd yn helpu i graffu ar gynnydd mewn perfformiad a thuag at dargedau amgylcheddol yn fisol ac yn tynnu sylw at anghysondebau i'w hystyried ymhellach.

## Defnyddio Ynni

Mae angen cryn dipyn o ynni i redeg yr holl adeiladau o fewn ystad Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, sy'n cynnwys gorsafoedd tân, swyddfeydd, gweithdai trafnidiaeth a lleoliadau hyfforddi. Mae cynhyrchu a defnyddio ynni yn cael effaith sylweddol ar yr amgylchedd trwy ddefnyddio adnoddau ac allyriadau carbon. Felly, mae'n bwysig sicrhau ei fod yn cael ei gyflenwi gan ddarparwr ynni adnewyddadwy.


Daw'r cyflenwad o drydan i gynnal ystad Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru gan ddarparwr ynni adnewyddadwy 100% ac mae wedi'i rannu fel a ganlyn:


| | RHANIAD YN ÔL % |
|---|---|
| **Biomass** | 1.25% |
| **Gwynt ar y Môr** | 58.70% |
| **Ffotofoltäig** | 7.65% |
| **Gwynt** | 32.40% |
| **Cyfanswm** | **100.00%** |

Mae'r defnydd o nwy a thrydan yn cael ei fonitro bob mis trwy ddarllenwyr mesuryddion awtomatig (AMR) ar bob safle. Mae hyn yn amlygu unrhyw gynnydd neu ostyngiad sylweddol yn y defnydd fesul Rhanbarth.

Mae posteri defnydd ynni yn cael eu dosbarthu i Ranbarthau yn chwarterol i godi ymwybyddiaeth o'r defnydd gan Orsafoedd unigol ac ar gyfer trafodaeth mewn cyfarfodydd Rhanbarthol. Maent hefyd yn cael eu trafod yng nghyfarfodydd chwarterol y Grŵp Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd.

Mae'r defnydd o nwy a thrydan am y 4 blynedd diwethaf wedi'i gynnwys yn y tabl isod. Bu gostyngiad cyson yn y defnydd o drydan ers blwyddyn sylfaen 2019/20, tra bod y defnydd o nwy wedi amrywio ychydig o flwyddyn i flwyddyn. Gallai hyn fod oherwydd tymhorau cynhesach.




| YNNI | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|
| **Trydan (KWH)** | 2,844,900 | 2,819,053 | 2,159,216 | 2,120,036 |
| **Nwy (KWH)** | 371,476 | 374,488 | 324,478 | 333,358 |

## Ynni Adnewyddadwy

Mae naw lleoliad yn y Gwasanaeth sydd â phaneli Solar Ffotofoltäig wedi'u gosod


- Gorsaf Tân Llanelli
- Gorsaf Tân Treforys
- Gorsaf Tân Dyffryn Aman
- Gorsaf Tân Aberystwyth
- Gorsaf Tân Pontardawe
- Gorsaf Tân Hendy-gwyn
- Pencadlys Gwasanaeth, Caerfyrddin
- Cyfleuster Hyfforddi Earlswood
- Gweithdy Dafen.

Mae'r unedau a gynhyrchir yn dibynnu ar gryfderau pelydrau'r haul a'r haenau o gymylau trwy gydol y flwyddyn. Mae'r taliadau a gynhyrchwyd yn cael eu cyfrifo yn seiliedig ar gyfraddau uned ein darparwyr trydan presennol y mis hwnnw. Hyd yn hyn, mae'r Paneli Solar Ffotofoltäig wedi cynhyrchu'r ffigurau canlynol.

| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|
| **Taliad a gynhyrchwyd** | £2,920.28 | £2,330.34 | £3,347.07 | £2,948.56 |
| **Unedau a gynhyrchir** | 13,902.31 kWh | 20,419 kWh | 28,953 kWh | 25,665 kWh |

Mae gan y Gwasanaeth saith tanc olew wedi'u lleoli ar bum safle lle nad oes cysylltiad wedi'i sefydlu â'r prif gyflenwad nwy. Mae'r holl danciau olew yn rhai dwy haenen ac yn cael eu gwirio'n flynyddol ar gyfer unrhyw arwyddion o ddifrod neu ddirywiad, a allai arwain at ollyngiadau ac effaith amgylcheddol sylweddol.

| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|
| **Defnydd Olew (Litrau)** | 36,574 | 67,656 | 35,563 | 22,742 |
| **Nifer yr archebion** | 31 | 40 | 25 | 11 |




Erbyn dechrau 2023, roedd y rhan fwyaf o'r tanciau olew gwresogi ar draws y Gwasanaeth wedi'u datgomisiynu, a'r safleoedd wedi'u troi'n rhai nwy lle bo modd. Mae tri lleoliad yn parhau i gael eu gwresogi gan olew, ac mae disgwyl i un gael ei droi'n nwy erbyn diwedd 2023.

## Allyriadau Carbon

Yn unol â'r gofynion ar gyfer adrodd ar allyriadau carbon gan Lywodraeth Cymru, defnyddir ffactorau trosi DEFRA ar gyfer pob math o danwydd i adrodd ar allyriadau. Mae hyn yn helpu wrth adrodd ar allyriadau Cwmpas 1, 2 a 3 i osgoi cyfrif ddwywaith.

Fel Gwasanaeth, mae nod i leihau'r allyriadau carbon sy'n deillio o'n gweithgareddau o flwyddyn i flwyddyn. Gwneir hyn trwy godi ymwybyddiaeth o'r defnydd o ynni, cynnal ymgyrchoedd amgylcheddol trwy gydol y flwyddyn, gwella cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar leoliadau'r Gwasanaeth a gweithredu technoleg well a chynaliadwy lle bo hynny'n berthnasol.

Y ffactorau trosi a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r ffigurau allyriadau carbon yn y tabl isod yw:


Y ffactor trydan ar gyfer 2021/22 yw 0.21233 a'r ffactor trydan ar gyfer 2022/23 yw 0.19121

Y ffactor nwy ar gyfer 2021/22 yw 0.18316 a'r ffactor nwy ar gyfer 2022/23 yw 0.18219

Y ffactor olew ar gyfer 2021/22 yw 0.24677 a'r ffactor olew ar gyfer 2022/23 yw 0.24557

| YNNI | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|
| **Trydan** | 663.15 | 657.23 | 458.47 | 405.4 |
| **Nwy** | 73.4 | 68.8 | 59.43 | 61.29 |
| **Olew** | 17.4 | 16.6 | 8.7 | 5.5 |

***Dangosir ar ffurf cyfatebiaeth CO 2 mewn tunelli**




Mae ffigurau Cwmpas 3 fel arfer yn cyfrif am hyd at 80% o allyriadau sefydliad, a nhw yw'r ffigurau anoddaf i'w cyfrifo bob amser. Maent yn gysylltiedig â gweithgareddau fel caffael, cylch bywyd cynhyrchion a'r gadwyn gyflenwi.

| | CWMPAS 1 | CWMPAS 2 | CWMPAS 3 |
|---|---|---|---|
| **2022/23** | 1,229.19 | 405.4 | 4,476.8 |
| **2021/22** | 945.6 | 458.47 | 5,369.8 |
| **2020/21** | 952.6 | 657.23 | 1,239.4 |

***Dangosir ar ffurf cyfatebiaeth CO 2 mewn tunelli**

Mae'r tabl uchod yn amlinellu ffigurau cwmpas 1, 2 a 3 y Gwasanaeth dros y tair blynedd diwethaf. Mae allyriadau uniongyrchol Cwmpas 1 wedi cynyddu dros y blynyddoedd, a gallai hyn fod oherwydd cynnydd yn y defnydd o danwydd. Mae allyriadau anuniongyrchol Cwmpas 2 wedi gostwng dros y blynyddoedd, a gallai hyn fod oherwydd bod y trydan yn dod gan gyflenwyr adnewyddadwy. Mae allyriadau anuniongyrchol Cwmpas 3 wedi cynyddu'n sylweddol oherwydd gwell cofnodi a monitro, sydd wedi cyd-fynd ag adroddiadau Sero Net Llywodraeth Cymru.

# Fflyd y Gwasanaeth

Mae gennym oddeutu 350 o gerbydau yn ein fflyd, sy'n gymysgedd o gerbydau diesel, hybrid a chwbl drydanol at ddefnydd gweithredol ac anweithredol. Oherwydd tirwedd wledig helaeth yr ardal o Gymru lle rydym yn gweithredu, a natur y Gwasanaeth o ran ymateb i argyfyngau, gall hyn gyfyngu ar ein hopsiynau cludiant ar gyfer gofynion gweithredol. Er gwaethaf hynny, mae yna feysydd lle gallwn wella ein fflyd, trwy newid cerbydau cronfa diesel i gerbydau trydan.

Mae'r tabl isod yn dangos 4 blynedd o ddefnydd diesel, milltiredd ac allyriadau carbon:

| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|
| **Diesel (Litrau)** | 481,310 | 340,622 | 349,300 | 461,159 |
| **Milltiredd** | Unknown | 1,360,288 | 1,453,578 | 1,957,211 |
| **tCO2e** | 1,248.5 | 867.2 | 877.5 | 1,162.4 |

***Tonnes of CO² equivalent**

Y ffactor trosi DEFRA a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r allyriadau carbon ar gyfer cerbydau diesel yw 2.51233 yn 2021/22 a 2.52058 yn 2022/23.

Mae cynnydd wedi bod yn y litrau o ddiesel a ddefnyddiwyd dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf o'i gymharu â 2020/21 a 2021/22. Gallai hyn fod oherwydd blynyddoedd y cyfnodau clo pan oedd mwy o gyfyngiadau ar waith o ran teithio, mynychu cyfarfodydd wyneb yn wyneb a chyswllt cymunedol. 2022 oedd y flwyddyn arferol gyntaf pan ailddechreuodd dyletswyddau llawn, felly gallai hyn fod yn esboniad ar gyfer y cynnydd yn y defnydd.

# Rhaglen ULEV y Gwasanaeth

Cyflwynwyd pum cerbyd 'Cyfres-GT' Hybrid Kia Sportage PHEV newydd i fflyd y Gwasanaeth ym mis Mawrth 2023.

Bydd 4 o'r 5 cerbyd yn cael eu defnyddio o fewn yr Adran Hyfforddi i gynorthwyo gyda hyfforddiant parhaus i yrwyr ymateb mewn argyfwng, a bydd y cerbyd arall yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ymateb mewn argyfwng i fynychu rhai o'r digwyddiadau amrywiol y mae'r Gwasanaeth yn cael eu galw iddynt.

Mae amrywiaeth o gerbydau o fewn y fflyd ac o flwyddyn i flwyddyn mae'r Gwasanaeth yn cynyddu nifer y cerbydau allyriadau isel i leihau ein hallyriadau uniongyrchol i'r atmosffer.



| MATH O GERBYD | NIFER YN Y GWASANAETH |
|---|---|
| **Cwbl Drydanol** | 35 |
| **Hybrid** | 10 |
| **Diesel / Petrol** | 307 |

Dangosir yma fanylion cerbydau diesel ac ULEV ein fflyd ar ddiwedd mis Mawrth 2023, boed yn gerbydau cronfa, ymateb neu brydles.

Er mwyn sicrhau bod y cerbydau trydan yn gallu gweithredu yn ôl y disgwyl, mae pwyntiau gwefru trydan wedi'u gosod mewn 22 lleoliad ar draws ardal y Gwasanaeth.

| | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|
| **Milltiroedd EV** | 802 | 113,676 | 163,721 |
| **kW a ddefnyddiwyd i wefru ceir** | Unknown | Unknown | 56,314.3 |
| **Kilogramau o $CO_2$ a gafodd eu gwrthbwyso yn sgil y cerbydau diesel** | 1,900 | 247,021 | 384,600 |

## Milltiroedd Busnes

Caiff milltiroedd busnes eu cyfrifo ar wahân i'n fflyd gyffredinol a gellir gweld y ffigurau yn y tabl isod; maent yn cynnwys milltiredd cerbydau preifat at ddefnydd busnes yn ogystal â hawliadau am filltiredd teithwyr. Gallai'r gostyngiad mewn milltiredd achlysurol fod oherwydd cynadleddau a chyfarfodydd a gynhelir yn rhithiol.

| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|
| **Ar les** | 191,394 | 87,757 | 125,019 | 138,124 |
| **Achlysurol / Hanfodol** | 191,539 | 129,650 | 147,380 | 130,352 |
| **Milltiredd teithwyr** | 26,415 | Unknown | 3,961 | 14,537 |



## Gwastraff o'r Gweithdai

Mae gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru brif weithdy trafnidiaeth yn Nafen lle cynhelir gwaith atgyweirio a gwasanaethu cerbydau. Nodir y prif fathau o wastraff gweithdai o'r safleoedd hyn isod. Mae'r ffigurau mewn perthynas â gwastraff y gweithdai yn amrywio yn dibynnu ar yr amserlen Gwasanaethu flynyddol.

| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|
| **Metel Sgrap (Tunelli)** | 5.3 | 6.83 | 16.6 | 11.4 |
| **Gwastraff Amsugnol (Kg)** | 321 | 200 | 312 | 330 |
| **Hidlenni Olew (Kg)** | 1,335 | 384 | 576 | 480 |
| **Olew Injans (Litrau)** | 5,390 | 2,041 | 1,701 | 2,120 |


## Gwastraff Cyffredinol ac Ailgylchu

Rhwng mis Tachwedd 2022 a mis Chwefror 2023, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y gofynion ar gyfer pob busnes, sefydliad cyhoeddus a'r trydydd sector i wahanu deunyddiau ailgylchadwy allweddol fel y mae'r rhan fwyaf o drigolion tai Cymru eisoes yn ei wneud. Disgwylir i'r diwygiad ddod i rym yn 2024 a bydd yn gwella ansawdd a maint yr ailgylchu ac yn darparu cysondeb yn y ffordd rydym yn casglu deunyddiau y gellir eu hailgylchu i sicrhau arbedion carbon sylweddol a manteision cadarnhaol i'r economi.

Ar hyn o bryd mae gwastraff y Gwasanaeth yn cael ei fonitro'n gywir gan gontractwyr gwastraff allanol ar adeg ei gasglu, sy'n caniatáu ar gyfer ystadegau manwl ar gyfer gwastraff cyffredinol, cymysg sych a gwastraff bwyd a gesglir o bob un o leoliadau'r Gwasanaeth.

| | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|
| **Gwastraff Cyffredinol (ddim yn cynnwys sgipiau)** | 64,038 | 82,549 | 68,482 |
| **Ailgylchu Cymysg Sych** | 31,032 | 47,060 | 52,076 |
| **Gwastraff Bwyd** | 26,257 | 31,078 | 35,967 |

Bu cynnydd cyson mewn gwastraff wedi'i ailgylchu a gostyngiad o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol mewn gwastraff cyffredinol, sydd i'w weld yn glir yn y graff isod. Mae contractwr gwastraff y Gwasanaeth yn adfer 99% o'n gwastraff i'w ailgylchu, ei gompostio a'i adfer, sy'n gadael dim ond 1% sy'n mynd i safleoedd tirlenwi.




## Plastig Untro

Yn 2020, penderfynodd y Gwasanaeth gael gwared ar boteli plastig untro o ddefnydd bob dydd ar gyfer staff y Gwasanaeth gyda'r nod o dargedu a lleihau gwastraff plastig yn sylweddol. Disodlwyd y poteli untro gan boteli amlddefnydd unigol gyda logo'r Gwasanaeth arnynt. Ers y flwyddyn sylfaen yn 2019/20, yn ôl y disgwyl, cafodd nifer y poteli plastig a brynwyd bron â'i haneru ar unwaith.

Yn anffodus, mae'r ffigur hwn yn dechrau cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, a bydd hyn yn cael ei ystyried a cheir craffu arno drwy gydol y flwyddyn sydd i ddod.


Gallai'r cynnydd fod oherwydd bod ansawdd y dŵr mewn rhai Gorsafoedd yn achosi defnydd o ddŵr potel, neu ddiffyg ymwybyddiaeth a gwybodaeth am effaith plastig untro ar yr amgylchedd.

| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y poteli plastig untro a brynwyd y flwyddyn** | 62,632 | 31,560 | 37,728 | 46,416 |
| **Nifer y poteli amlddefnydd a ddosbarthwyd** | 0 | 1,408 | 175 | 114 |

# Prosiectau'r Gwasanaeth

Fel Gwasanaeth, rydym yn ymdrechu'n barhaus i wella ein heffaith amgylcheddol a'n perfformiad mewn perthynas ag ymgysylltu â'r gymuned ar gyfer lleihau tanau bwriadol, lleihau allyriadau carbon o'n fflyd a sicrhau bod ein hadeiladau mor effeithlon â phosibl, tra hefyd yn lleihau'r defnydd o ynni.

## Cynllun Gweithredu Adfer Natur




Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddodd y Gwasanaeth ei Adroddiad Monitro Dyletswydd Adran 6 2020-23 cyntaf mewn perthynas â'r amcanion a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth 2020-2023 yn unol â gofyniad Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r Adroddiad hwn yn tynnu sylw at yr hyn y mae'r Gwasanaeth wedi'i wneud dros y 3 blynedd diwethaf i annog bioamrywiaeth ar safleoedd y Gwasanaeth a gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth trwy weithgareddau'r Gwasanaeth. Mae nifer o feysydd lle rydym yn gwella ymwybyddiaeth staff a'n heffaith ar yr amgylchedd, ac mae'r rhain wedi'u hamlinellu isod.

Ochr yn ochr ag Adroddiad Monitro Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth 2020-2023, cyhoeddwyd cynllun newydd, sef Cynllun Gweithredu Adfer Natur 2023-26, i ddisodli ac amlinellu amcanion newydd ar gyfer y tair blynedd nesaf.

## Prosiect Bioamrywiaeth Ifanc

Dathlodd Gorsaf Dân y Drenewydd Jiwbilî Platinwm y Frenhines gyda grŵp o gadetiaid tân o'r Orsaf a drefnodd ardd goffa, lle gwahoddwyd ysgolion lleol i ddylunio a phaentio'r potiau blodau pren. Mae Gorsaf y Drenewydd wedi bod yn rhan o brosiect ar y cyd gyda Diffoddwyr Tân Ifanc a grŵp cymunedol lleol i sefydlu gwelyau llysiau o flaen yr Orsaf.





## Blychau Gwenoliaid

Bu nifer o achosion lle mae Criwiau Tân wedi helpu i osod strwythurau ar adeiladau cyhoeddus ledled ardal y Gwasanaeth. Y tro hwn, roedd criwiau tân o Orsaf Dân Treforys yn gallu helpu i osod blychau gwenoliaid ar fferm gymunedol leol yn Abertawe  er mwyn helpu i gynyddu nifer y rhywogaethau yn yr ardal leol.



## Dawns Glaw




Mae tanau gwyllt yn gyfrifol am ddinistrio miloedd o hectarau o gefn gwlad, mannau agored a chynefinoedd bywyd gwyllt bob blwyddyn.

Yn 2022, mynychodd y Gwasanaethau Tân ac Achub ledled Cymru 3,269 o ddigwyddiadau tanau glaswellt, cynnydd o 62% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae Ymgyrch Dawns Glaw yn dasglu amlasiantaeth o arbenigwyr o asiantaethau allweddol ledled Cymru sydd wedi ymrwymo i leihau a, lle bo modd, dileu effaith tanau glaswellt ledled Cymru. Er bod y ffocws cychwynnol ar leihau achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a llosgi bwriadol, mae gwaith mwy diweddar wedi canolbwyntio ar gynorthwyo ffermwyr a thirfeddianwyr i sicrhau bod eu cynlluniau rheoli tir yn cael eu gweithredu'n ddiogel, yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o ganlyniadau tanau damweiniol ar gefn gwlad o ganlyniad i fwy o dwristiaeth.

Mae'r Tîm Lleihau Tanau Bwriadol a'r Swyddog Cyswllt Ffermio o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnig cymorth ac arweiniad, sy'n rhad ac am ddim, i ffermwyr, porwyr a thirfeddianwyr sy'n dymuno llosgi dan reolaeth fel rhan o reoli eu tir. Yn ystod ymweliad â fferm, gall y Swyddog Cyswllt Ffermio helpu i greu 'cynllun llosgi', trafod technegau llosgi, rhwystrau tân a rheoli llosgi dan reolaeth yn ddiogel.

## Cynlluniau Draenio

Mae'r Gwasanaeth wedi cwblhau gwaith ar gynlluniau draenio, gan sicrhau bod gan bob lleoliad gynllun cyfredol i dynnu sylw at ddraeniau dŵr wyneb a dŵr budr ar y safle. Bydd hyn yn sicrhau bod llai o risg i'r amgylchedd yn sgil gollyngiadau damweiniol mewn Gorsafoedd yn ystod driliau rheolaidd neu wrth gyflenwi llwythi tanwydd, lle bo hynny'n berthnasol.

## Rhwystrau Tân

Enghraifft dda o gydweithio â Chyfoeth Naturiol Cymru a Phartneriaethau Bioamrywiaeth Lleol. Mae aelodau'r Gwasanaeth wedi cynorthwyo'n effeithiol i greu rhwystrau tân mewn ardaloedd o dir comin mewn rhai o ardaloedd y Gwasanaeth i atal tanau glaswellt rhag lledaenu mewn lleoliadau risg uchel. Mae hwn yn brosiect sydd wedi cael ei ailadrodd o flwyddyn i flwyddyn ers nifer o flynyddoedd i adeiladu gwytnwch ac annog bioamrywiaeth leol.

## Materion yr Amgylchedd - E-ddysgu

Yn gynnar yn 2023, lansiodd y Gwasanaeth ei hyfforddiant e-ddysgu amgylcheddol mewnol cyntaf ar gyfer pob aelod o staff. Mae'r pecyn wedi'i gymeradwyo gan Gyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân a Dysgu Gydol Oes Undeb y Brigadau Tân.

Mae'n cynnig ymwybyddiaeth i staff mewn amrywiaeth o feysydd gan gynnwys bioamrywiaeth, gwastraff, dŵr, cadwraeth ynni ac allyriadau carbon.




## Ardaloedd blodau gwyllt ar dir y Gwasanaeth

Er mwyn gwella bioamrywiaeth ar dir y Gwasanaeth, mae cyfundrefnau torri gwair ac ardaloedd blodau gwyllt wedi cael eu hannog pan fo ystyriaethau lle yn caniatáu hynny. Mae contractwr cynnal a chadw tiroedd y Gwasanaeth wedi hau hadau blodau gwyllt dros ddarn o lawnt mewn dwy ardal o Bencadlys y Gwasanaeth yng Nghaerfyrddin, cyfanswm o 150 metr sgwâr.



## Elusen y Diffoddwyr Tân

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnal 36 o fanciau dillad mewn Gorsafoedd ar draws ardaloedd y Gwasanaeth sy'n helpu i gynhyrchu incwm gan aelodau o'r cyhoedd sy'n ailgylchu eu dillad diangen.

Yn 2022/23 yn unig, rhoddwyd 164,810 Kg o ddeunydd drwy'r banciau dillad a gynhyrchodd swm enfawr i'r Elusen. Erbyn mis Mawrth 2024, y targed yw cael 40 o Orsafoedd Tân gyda Banciau Dillad wedi'u lleoli arnynt.

Ar draws y DU, cynhyrchodd banciau dillad Elusen y Diffoddwyr Tân gyfanswm o £900,000 o ddillad wedi'u hailgylchu. Mae dillad a deunyddiau sy'n cael eu rhoi drwy'r banciau yn cael eu dargyfeirio i ffwrdd o safleoedd tirlenwi ac maent naill ai'n cael eu hailwerthu, eu hailddefnyddio neu eu hailgylchu.

| BLWYDDYN | KG O DDILLAD | YR INCWM A GYNHYRCHWYD GAN GTACGC |
|---|---|---|
| **2022/23** | 164,810 | £35,097 |
| **2021/22** | 151,311 | £28,437 |
| **2020/21** | 125,038 | £14,945 |
| **2019/20** | 100,762 | £22,168 |

# Mesur a Monitro: Data Amgylcheddol

Mae data amgylcheddol dibynadwy yn hanfodol wrth fonitro patrymau galw am adnoddau ac amlygu lle gellir gwneud gwelliannau ac arbedion cost. Ystyrir gweithgarwch monitro yn ddull sylfaenol a hanfodol wrth reoli perfformiad.

Mae nifer o raglenni ar waith i fesur ac adrodd ar ofynion adnoddau'r Gwasanaethau, naill ai'n fisol neu'n chwarterol, sy'n cynnwys:

- System Rheolaeth Amgylcheddol y Ddraig Werdd
- Nwy a thrydan
- Poteli dŵr plastig untro
- Olew tanwydd ar gyfer gwresogi a diesel
- Gwastraff – cyffredinol, ailgylchu cymysg sych cyffredinol a gwastraff bwyd
- Caffael Cynaliadwy.

# Hyfforddiant  Amgylcheddol a Rhwymedigaethau Cydymffurfio

## Hyfforddiant Amgylcheddol

Mae hyfforddiant cynaliadwyedd ac amgylcheddol yng Ngwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnwys codi ymwybyddiaeth yn ystod holl sesiynau cynefino gweithwyr newydd y Gwasanaeth mewn meysydd allweddol, materion a gweithdrefnau a gyflawnir gan y Gwasanaeth i leihau ei effaith amgylcheddol.

Mae hyfforddiant e-ddysgu ar gael i'r holl staff i godi ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol mewn Gorsafoedd ac mewn Adrannau.

Mae nifer o ffyrdd y mae'r Gwasanaeth yn cynnal ymwybyddiaeth amgylcheddol gan gynnwys:

- Cyfathrebu mewnol, ymgyrchoedd amgylcheddol a diweddariadau amgylcheddol
- Cyflwyniadau ar ymwybyddiaeth amgylcheddol
- Dosbarthu posteri ar ymwybyddiaeth amgylcheddol, taflenni ffeithiau hyfforddi ac atodiadau ar faterion fel data ar ynni a diweddariadau ar berfformiad amgylcheddol.

Fel un o ofynion ein rhwymedigaethau gwirfoddol o dan System Rheolaeth Amgylcheddol y Ddraig Werdd, mae'r Gwasanaeth yn cadw cofrestr o'r holl ddeddfwriaeth berthnasol sy'n berthnasol i weithgareddau a gweithrediadau'r Gwasanaeth i sicrhau cydymffurfiaeth. Mae'r gofrestr yn cynnwys agweddau fel: aer, sŵn, dŵr, gwastraff, tir, fflora a ffawna.

Er mwyn helpu i sicrhau bod y gofrestr hon bob amser yn gyfredol o ran yr holl ddeddfwriaeth amgylcheddol berthnasol ac yn cyd-fynd â rhwymedigaethau gwirfoddol perthynol, mae'r Gwasanaeth yn defnyddio System y Rheolwr Cydymffurfedd Cyfreithiol, sef gwasanaeth diweddaru amgylcheddol sy'n ein galluogi i nodi a dosbarthu deddfwriaeth berthnasol mewn modd hwylus yn effeithlon.

Er mwyn sicrhau ein bod yn cynnwys yr holl ddeddfwriaeth, rydym yn ychwanegu at hyn trwy groesgyfeirio'n rheolaidd at yr wybodaeth sydd ar wefan y Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol (IEMA), yn ogystal â chyfeirio at wybodaeth o wefannau a chyfnodolion amgylcheddol.

# Adran 3
# Amcanion a thargedau amgylcheddol 2022/23

| | AMCAN | CANLYNIADAU |
|---|---|---|
| **AA1** | Meithrin ymwybyddiaeth o allyriadau carbon ledled y Gwasanaeth ac annog mesur rhagweithiol i'w lleihau. | Cyhoeddwyd Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol 2021/22 ar y wefan allanol yn ystod hydref 2022.<br><br>Dosbarthwyd posteri am Ynni a Gwastraff i bob Rhanbarth i godi ymwybyddiaeth o'r defnydd gan Orsafoedd unigol.<br><br>E-bost cadwraeth y gaeaf a rhestr wirio wedi'u dosbarthu i'r holl Staff.<br><br>Aeth hyfforddiant e-ddysgu ymwybyddiaeth amgylcheddol yn fyw ym mis Ionawr 2023. |
| **AA2** | Cynyddu nifer y Prosiectau Bioamrywiaeth yr ymgymerir â nhw ledled y Gwasanaeth mewn perthynas â Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth 2020-2023 a hynny'n fewnol ac yn allanol. | Adroddiad Monitro Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth 2020-23 wedi'i gyhoeddi ar gyfer Llywodraeth Cymru yng Ngwanwyn 2023 sy'n tanlinellu ein cyflawniadau mewn perthynas â'n hamcanion.<br><br>Cydweithio allanol gyda PSB Partners, Gerddi Botaneg Cenedlaethol Cymru, Partneriaeth Natur Abertawe. |
| **AA3** | Monitro'r defnydd o ddŵr ar Safleoedd y Gwasanaeth, a gosod dyfeisiau arbed dŵr lle bo hynny'n bosibl. | Mesuryddion dŵr wedi'u gosod mewn 13 o leoliadau'r Gwasanaeth i ganiatáu ar gyfer monitro'r safleoedd hynny.<br><br>Trafodaeth ynghylch monitro defnydd dŵr mewn digwyddiadau. |
| **AA4** | Meithrin ymwybyddiaeth o allyriadau carbon trwy ddefnyddio technoleg glyfar i annog newid ymddygiad. Lleihau'r defnydd o drydan o 2% o gymharu â 2019/20. | Ffigyrau allyriadau carbon wedi'u hadrodd drwy Adroddiad Blynyddol Sero Net Llywodraeth Cymru. Medi 2022.<br><br>Dechreuodd y gwasanaeth ddatblygu ei Adroddiad Datgarboneiddio cyntaf mewn cydweithrediad â chwmni allanol.<br><br>Treialon tanwydd HVO mewn nifer fach o'n cerbydau gweithredol.<br><br>Gostyngodd ffigyrau trydan 25% o'u cymharu â'r flwyddyn sylfaen. |
| **AA5** | Annog a meithrin ymwybyddiaeth yn y gorsafoedd er mwyn lleihau ac ailddefnyddio gwastraff yn y lle cyntaf a thynnu sylw at y gwastraff a gynhyrchir ym mhob Ardal Reoli.<br><br>Lleihau deunydd Ailgylchu Cymysg Sych o 2% o'i gymharu â 2021/22, sef y flwyddyn sylfaen newydd. | Dosbarthwyd posteri am ddefnydd gwastraff i bob Rhanbarth er mwyn cael trafodaeth.<br><br>Ffigyrau gwastraff. Cynnydd o 10% mewn deunydd Ailgylchu Cymysg Sych o'i gymharu â ffigurau 2021/22<br><br>Gostyngiad o 17% ar ffigyrau gwastraff Cyffredinol o'u cymharu â ffigurau 2021/22.<br><br>Cynnydd mewn ceisiadau am finiau gwahanu mewnol. |

| | AMCAN | CANLYNIADAU |
|---|---|---|
| **AA6** | Sicrhau cynnydd o 10% yn nifer y cerbydau trydan a'r lleoliadau gwefru yn ardaloedd mwy gwledig y Gwasanaeth, o'i gymharu â llinell sylfaen 2021/22. | Mae cerbydau trydan y gwasanaeth wedi cynyddu 14%, heb gynnwys y cerbydau Hybrid newydd.<br><br>Mae'r lleoliadau gwefru wedi cynyddu o 9 i 16 lleoliad erbyn diwedd mis Mawrth 2023 |

# Amcanion Amgylcheddol ar gyfer y flwyddyn i ddod 2023/24

## AMCAN 1
Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth amgylcheddol i annog mesurau rhagweithiol i leihau allyriadau Carbon ledled y Gwasanaeth a chefnogi newid diwylliant.

## AMCAN 2
Trwy ddefnyddio technolegau clyfar, monitro, adolygu a dadansoddi allyriadau o'n hystad. Rhannu data i addysgu a lleihau allyriadau o 2% o flwyddyn i flwyddyn o'r flwyddyn sylfaen, sef 2021/22.


## AMCAN 3
Cynllun Gweithredu Adfer Natur 2023-26 – annog cydweithio â sefydliadau partner a grwpiau cymunedol a'i gynnwys yn y Cynllun Gweithredu Adfer Natur.

## AMCAN 4
Lleihau gwastraff bwyd mewn Gorsafoedd o 2% o flwyddyn i flwyddyn o'r flwyddyn sylfaen, sef 2021/22.

## AMCAN 5
Casglu data llinell sylfaen ar gyfer defnydd dŵr ar safleoedd dethol ac adolygu'r ffyrdd cyfredol o weithio i ddylanwadu ar newid.

## AMCAN 6
Datblygu ac ymgynghori ar gynllun datgarboneiddio ar gyfer y Gwasanaeth erbyn 2025.

**Bydd adroddiad o berfformiad yn erbyn y targedau hyn yn cael ei gynnwys yn Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol 2023/24.**





**Cyfryngau Cymdeithasol**

Rydym yn eich annog i gadw llygad ar ein
sianeli cyfryngau cymdeithasol ar gyfer diweddariadau

**HOFFI** DILYN **RHANNU**

**LIKE** FOLLOW **SHARE**

**Ein Negeseuon Diogelwch**

Our Safety Messages

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

# Adroddiad Blynyddol Amgylcheddol a Chynaliadwyedd

2022 / 2023